# Ymgysylltiad estynedig

## Gwybodaeth i bobl â buddiant

Gorffennaf 2026

# Cynnwys

**Cynnwys** .......... **2**
**Beth yw ymgysylltiad estynedig?** .......... **3**
**I bwy mae ymgysylltiad estynedig yn berthnasol?** .......... **3**
**Beth sy'n digwydd pan fydd yna ymgysylltiad estynedig?** .......... **4**
Ymgysylltiad estynedig ar gyfer ymchwiliadau troseddol .......... 4
Ymgysylltiad estynedig ar gyfer cwestau .......... 4
Ymgysylltiad estynedig ar gyfer ymchwiliadau .......... 5
Atgyfeiriad at y CPS .......... 6
A fydd mwy o ymgysylltu yn effeithio ar amseroldeb yr ymchwiliad? .......... 6

# Beth yw ymgysylltiad estynedig?

Mae gan IOPC ddyletswyddau cyfreithiol i ddarparu gwybodaeth o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* . Fodd bynnag, mae rhai categorïau o ymchwiliadau bellach sy'n cynnwys y digwyddiadau mwyaf difrifol, fel marwolaethau neu anafiadau difrifol iawn, lle mae angen i ni wneud mwy nag y mae'r cynllun statudol yn gorchymyn er mwyn caniatáu cyfranogiad effeithiol mewn ymchwiliad. Yn yr achosion hyn, bydd ymgysylltiad estynedig yn berthnasol.

Pan fydd IOPC yn penderfynu bod ymgysylltiad estynedig yn berthnasol i ymchwiliad, bydd y teulu sydd wedi colli rhywun, y perthynas agosaf, neu'r person a anafwyd ei hun, yn derbyn lefel uwch o wybodaeth fel eu bod yn gwybod mwy am yr ymchwiliad.

Mae'r mathau o ymchwiliadau lle bydd ymgysylltiad estynedig yn berthnasol yn cynnwys:

- Unrhyw achos marwolaeth lle mae Erthygl 2 yn berthnasol (neu y gellid dadlau ei fod yn berthnasol), er enghraifft marwolaethau yn y ddalfa neu saethu gan yr heddlu.
- Pan fydd defnyddio grym, neu gamau eraill gan yr heddlu, wedi creu bygythiad i fywyd sy'n berthnasol i Erthygl 2, ac sydd wedi achosi neu wedi cyfrannu at anaf difrifol sy'n debygol o effeithio'n sylweddol ar allu'r person i gymryd rhan yn effeithiol yn yr ymchwiliad.

Bydd gweithredu ymgysylltiad estynedig yn dibynnu ar ffeithiau penodol pob ymchwiliad.

# I bwy mae ymgysylltiad estynedig yn berthnasol?

Mae ymgysylltiad estynedig yn ymwneud ag ymgysylltu'n effeithiol â theuluoedd pan fydd rhywun wedi marw neu wedi'i anafu'n ddifrifol. Er na fydd ymgysylltiad estynedig yn berthnasol i bob achwynydd, na phersonau eraill sydd â diddordeb yn yr ymchwiliad, pan wneir penderfyniad bod ymgysylltiad estynedig yn berthnasol i ymchwiliad, bydd pob person a rhanddeiliad â buddiant yn cael gwybod er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw.

Pan fydd rhywun wedi marw, bydd ymgysylltiad estynedig yn berthnasol i'r teulu neu'r perthnasau agosaf. Gall hyn fod drwy gynrychiolydd.

Mewn achosion lle mae person wedi dioddef anaf difrifol, bydd ymgysylltiad estynedig yn berthnasol i'r person anafedig, a all fod drwy gynrychiolydd. Os yw'r anaf a ddioddefwyd yn debygol o effeithio'n sylweddol ar allu'r person i gymryd rhan yn yr ymchwiliad, bydd mwy o ymgysylltiad yn berthnasol i'w deulu neu anwyliaid, a all fod trwy gynrychiolydd unwaith eto.

Cynigir ymgysylltiad estynedig i deuluoedd / unigolion perthnasol ac fe fydd ar gael iddynt tan ddiwedd yr ymchwiliad. Pan cynigir ymgysylltiad estynedig, nid oes rheidrwydd ar deuluoedd i gymryd rhan. Er ein bod yn cyfeirio at 'deuluoedd' yng ngweddill y nodyn hwn, mae'r ymrwymiad yn berthnasol i unrhyw berson y mae ymgysylltiad estynedig yn berthnasol iddynt.

# Beth sy'n digwydd pan fydd yna ymgysylltiad estynedig?

Mae ymgysylltiad estynedig yn rhoi cyfle i unigolion neu deuluoedd sydd wedi colli rhywun mewn rhai mathau o ymchwiliadau, fel y nodir uchod, gael mwy o ymgysylltiad gyda’r ymchwiliad. Bydd IOPC yn gweithio'n agos gyda'r teulu i ddeall y lefel o gyfranogiad mae nhw eisiau yn yr ymchwiliad a byddant yn teilwra'r ymgysylltiad estynedig i gyd-fynd â'u gofynion.

Pan fydd ymgysylltiad estynedig yn berthnasol i ymchwiliad, bydd IOPC yn hysbysu partïon neu randdeiliaid eraill â buddiant sy'n ymwneud â'r ymchwiliad, megis yr awdurdod priodol, Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), a'r Crwner.

Bydd yr ymchwilydd arweiniol yn hysbysu'r awdurdod priodol pan fydd ymchwiliad yn dod o dan ymgysylltiad estynedig. Yn eu llythyr diweddaru 28 diwrnod, bydd y prif ymchwilydd yn gofyn yn rhagweithiol am ac yn ystyried sylwadau ar unrhyw ddeunydd na ddylid ei rannu er budd y cyhoedd, rhagfarn neu resymau perthnasol eraill (y "prawf niwed"), ac unrhyw olygiadau cyfatebol sydd eu hangen. Bydd hyn yn sicrhau bod y prif ymchwilydd eisoes yn ymwybodol o unrhyw ddeunydd y gallai fod angen ei atal wrth rannu deunydd ymchwiliol allweddol gyda'r teulu.

Bydd IOPC yn cadarnhau pa ddeunydd sydd wedi'i rannu gyda'r teulu yn y llythyr diweddaru 28 diwrnod i'r awdurdod priodol.

## Ymgysylltiad estynedig ar gyfer ymchwiliadau troseddol

Ar gyfer ymchwiliadau troseddol, bydd IOPC yn ymgysylltu â'r CPS i nodi unrhyw bryderon a allai fod gan y CPS ynghylch yr effaith y bydd ymgysylltiad estynedig yn ei gael ar achosion troseddol posib. Bydd y prif ymchwilydd yn hysbysu cyfreithiwr y CPS pa wybodaeth y maent yn bwriadu ei rhannu, yn amodol ar y prawf niwed, gyda'r teulu yn ystod yr ymchwiliad. Bydd IOPC yn gofyn am unrhyw sylwadau ar y prawf niwed gan gyfreithiwr y CPS. Bydd IOPC yn cadarnhau pa ddeunydd sydd wedi'i rannu gyda'r teulu yn y llythyr diweddaru 28 diwrnod at gyfreithiwr y CPS.

## Ymgysylltiad estynedig ar gyfer cwestau

Pan gynhelir cwest, bydd y prif ymchwilydd yn ymgysylltu â'r Crwner i gael ei farn ynghylch unrhyw bryder o ragfarn i'r cwest mewn ymchwiliadau ymgysylltiad estynedig. Fodd bynnag, gan fod IOPC yn rhannu gwybodaeth i gydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol ei hun, mae hyn ar wahân i'r broses ddatgelu ar gyfer yr

achos cwest. Bydd IOPC yn ystyried yn ofalus unrhyw farn a fynegir gan y Crwner cyn rhannu deunydd.

Fodd bynnag, mae'r penderfyniad i rannu dogfennau neu ddeunydd gyda'r teulu, ar ôl i'r prawf niwed gael ei gymhwyso, yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i IOPC. Bydd IOPC yn cadarnhau pa ddeunydd sydd wedi'i rannu gyda'r teulu yn y llythyr diweddaru 28 diwrnod at y Crwner.

## Ymgysylltiad estynedig ar gyfer ymchwiliadau

Mewn ymchwiliadau ymgysylltiad estynedig, bydd IOPC yn rhannu'r cylch gorchwyl gyda'r teulu. Bydd cyfle i'r teulu gyflwyno sylwadau ar y cylch gorchwyl i IOPC. Ni ddylai hyn arwain at unrhyw oedi sylweddol i'r ymchwiliad, gan y gellir parhau â'r ymchwiliad tra bod y teulu'n adolygu'r cylch gorchwyl.

Bydd IOPC yn dweud wrth deuluoedd am benderfyniadau ymchwiliol allweddol, yn egluro pam rydym wedi gwneud penderfyniadau, beth mae'r penderfyniadau'n ei olygu, pam rydym wedi penderfynu cynnal llinellau ymholi penodol a, lle'n berthnasol, pam nad ydym yn cynnal llinellau ymholi.

Bydd IOPC yn egluro i deuluoedd pa dystiolaeth rydym wedi casglu yn ystod yr ymchwiliad, a beth mae'r dystiolaeth yn ei olygu. Byddwn hefyd yn egluro, mewn Saesneg plaen, y ddeddfwriaeth a'r polisïau perthnasol sy'n berthnasol yn yr ymchwiliad.

Mewn ymchwiliadau ymgysylltu estynedig, gall IOPC hefyd rannu dogfennau ychwanegol, gan gynnwys deunydd sain neu weledol lle'n berthnasol. Bydd IOPC yn ceisio sylwadau ynghylch y prawf niwed mewn rhai amgylchiadau, wrth wneud y penderfyniad i rannu dogfennau neu ddeunydd.

Gall IOPC hefyd ddarparu copi o’r adroddiad terfynol drafft i’r teulu, gan gytuno ar gyfnod o amser i ganiatáu i’r teulu adolygu’r adroddiad. Bydd IOPC yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gan y teulu am y dystiolaeth a gofnodwyd yn yr adroddiad terfynol drafft ac yn adolygu sylwadau lle mae'r teulu'n credu y gellid dilyn llinellau ymholi pellach i fynd i'r afael â'r cylch gorchwyl.

Ni fydd IOPC yn rhannu'r adroddiad terfynol drafft gyda phobl eraill sydd â buddiant yn rheolaidd. Ar rai achlysuron, efallai bydd angen rhannu'r adroddiad terfynol drafft gyda'r awdurdod priodol cyn iddo gael ei rannu gyda'r teulu. Diben hyn yw ceisio unrhyw sylwadau ar y prawf niwed a'r golygiadau. Fodd bynnag, yr arfer safonol mewn ymchwiliadau ymgysylltiad estynedig fydd ymgysylltu â'r awdurdod priodol i geisio sylwadau ar y prawf niwed a'r golygiadau yn ystod yr ymchwiliad. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael wrth rannu deunydd ymchwiliol allweddol gyda theuluoedd ac i osgoi'r oedi a allai ddigwydd os caiff hyn ei gwblhau ar ddiwedd yr ymchwiliad.

Gall IOPC hefyd ddarparu dogfen barn y penderfynydd i'r teulu, ar yr un pryd â'i rannu â'r awdurdod priodol.

## Atgyfeiriad at y CPS

Mewn ymchwiliadau lle mae'n ofynnol i IOPC benderfynu a ddylid cyfeirio'r mater at y CPS, bydd y penderfyniad hwn yn cael ei rannu gyda'r teulu. Os yw IOPC wedi ymchwilio i droseddau troseddol posibl, mae cynllun Hawl y Dioddefwr i Adolygiad (VRR) IOPC yn berthnasol.

Mewn achosion lle nad yw IOPC wedi ymchwilio i droseddau posib, mae gan y teulu'r cyfle i wneud sylwadau ar yr asesiad nad oes arwydd o drosedd pan caiff y penderfyniad cychwynnol hwn ei wneud.

## A fydd mwy o ymgysylltu yn effeithio ar amseroldeb yr ymchwiliad?

Yn ymarferol, gallai ymgysylltiad estynedig gael rhywfaint o effaith ar amseroldeb yr ymchwiliad. Fodd bynnag, ni ddylai'r rhan fwyaf o'r ymgysylltiad â'r teulu oedi IOPC rhag parhau ag agweddau eraill o’r ymchwiliad.

Ar ddechrau'r ymchwiliad, wrth osod y cylch gorchwyl ac ystyried amserlenni, bydd ymgysylltiad estynedig yn un o'r ffactorau a fydd yn cael eu hystyried. Bydd ein cylch gorchwyl yn nodi amserlenni ar gyfer yr ymchwiliad, a fydd yn cynnwys unrhyw amser ychwanegol sydd ei angen i ymgysylltu'n effeithiol â'r teulu.

Mae ymgysylltiad estynedig yn rhoi cyfle i deuluoedd gymryd mwy o ran yn yr ymchwiliad. Bydd IOPC yn gwrando ar, ac yn ystyried, sylwadau gan y teuluoedd. Fodd bynnag, IOPC sy'n gyfrifol yn y pen draw am wneud penderfyniadau yn yr ymchwiliad, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau statudol.

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2026

© IOPC 2026

OGL This is licensed under the Open Government Licence v3.0
except where otherwise stated.

This does not include material belonging to third parties.
Authorisation to use such material must be obtained from the copyright holders concerned.

I gael gwybod mwy am ein gwaith neu i ofyn am y ddogfen hon
mewn fformat amgen, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)**
**10 South Colonnade Canary Wharf London E14 4PU**
Ffôn: **0300 020 0096**
E-bost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk/cy**
Cyfnewid testun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg, ni fydd oedi mewn ymateb